## Cyflogaeth

Mae ein gwasanaeth Cyflogadwyedd yn helpu pobl ifanc â nam ar eu golwg yng Nghymru i ennill cymwysterau a chael swyddi. Credwn yn gryf na ddylai pobl gael eu hatal rhag cyrraedd eu potensial a llwyddo i gael gwaith tymor hir oherwydd eu bod wedi colli eu golwg.

**Bydd person ifanc yn cael cymorth wyneb yn wyneb wedi'i deilwra ar ei gyfer o ar hyd taith ei gyflogaeth. Cymorth fydd yn:**

- Datblygu hyder a sgiliau wrth ysgrifennu CVs a chael ffug gyfweliadau
- Nodi hyfforddiant, profiad gwaith a chyfleoedd gwaith posib
- Cefnogi a mentora pobl ifanc a'u cyflogwyr yn barhaus
- Hyfforddi cyflogwyr fel y gallant sicrhau y bydd lleoliadau gwaith pobl â nam ar eu golwg yn llwyddiant

## Technoleg Gynorthwyol

Rydym yn hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg newydd a'r dechnoleg sydd eisoes yn cael ei defnyddio er mwyn ymgrymuso plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg ar eu taith i fwy o annibyniaeth. Mae ein sesiynau Technoleg Gynorthwyol un-i-un wedi'u haddasu'n unol ag anghenion golwg a thechnoleg pobl ifanc, gan eu dysgu i geisio eu ffordd drwy'r byd yn defnyddio dyfeisiau megis ffonau clyfar, cyfrifiaduron a darllenyddion Braille.



Byddwn hefyd yn dysgu rhieni sut i ddefnyddio Technoleg Gynorthwyol i gefnogi eu plant.

## Mynediad heb Derfynau

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Dyma'r partneriaid sy'n gweithio gyda ni i roi cymorth i deuluoedd yng Nghymru:

- Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru: www.nwsb.org.uk
- Vision Support: www.visionsupport.org.uk
- Cyngor Cymru i'r Deillion : www.wcb-ccd.org.uk
- Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol: www.cwvys.org.uk
- Clybiau Bechgyn a Merched Cymru: www.bgc.wales

www.rsbc.org.uk/for-families/access-unlimited

# RSBC

Royal Society for Blind Children

# Mynediad heb Derfynau



Life Without Limits For Blind Children


Kim Pearson | 07872 835 972
kim.pearson@rsbc.org.uk

Ellie Russell | 07990 530557
Ellie.Russell@rsbc.org.uk


Rhif elusen gofrestredig: 307892

Ynghyd â'n Partneriaid ym Mynediad Heb Derfynau, mae'r Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Plant Dall (RSBC) yn cefnogi plant a phobl ifanc dall a rhannol ddall a'u teuluoedd yng Nghymru.

## Ymhlith ystod ein gwasanaethau mae:

- **Gweithgareddau, wyneb yn wyneb ac ar-lein**
- **Cymorth i deuluoedd**
- **Cymorth ôl-16 a chyflogaeth**
- **Gwybodaeth a chyngor**
- **Technoleg Gynorthwyol**





## Cymorth i Deuluoedd

Mae ein gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf yma i helpu! Mae gennym Ymarferwyr Teulu ledled Cymru, wedi ymroi i gynnig cymorth ymarferol ac emosiynol. Mae ein gwasanaeth yn hyblyg, yn ymatebol ac yn hyderus a gallwn gwrdd â theuluoedd wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Mae gennym hefyd fforwm ar-lein fel bod modd i deuluoedd gwrdd â'i gilydd a thrafod problemau ac atebion cyffredin.

## Gwybodaeth a Chyngor

Mae gwasanaeth cynghori'r RSBC, sy'n rhad ac am ddim, yn rhoi arweiniad i bobl ifanc â nam ar eu golwg a'u teuluoedd. Bydd ein hymgynghorydd yn mynd drwy gymhwysedd person am help ychwanegol, yn cynnwys: Budd-daliadau Lles, Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), Credyd Cynhwysol a Grantiau. Gall ein partner, Vision Support hefyd gynnig cymorth yn y maes hwn.

## Gweithgareddau

Mae ein gweithgareddau'n dod â phobl â nam ar eu golwg ynghyd i gael hwyl, creu cyfeillgarwch a datblygu sgiliau am oes. Ymhlith ein hystod eang o sesiynau ar-lein mae popeth o gerddoriaeth i chwarae gemau, coginio i ddarllen, chwaraeon a ffitrwydd, cymdeithasu efo ffrindiau. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid, Clybiau Bechgyn a Merched Cymru, i gynnig gweithgareddau lleol mewn cymunedau lleol.



rsbc.org.uk/calendar-of-activities